

Cyfeirnod: IR775

Dyddiad cyhoeddi: 29 Ebrill 2021

Amser anghynhyrchiol yn ystod y pandemig

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth 31 Mawrth 2021 lle gwnaethoch ofyn am wybodaeth am ddefnyddio "cod taflen amser mewn ymateb i'r pandemig, er mwyn i'ch staff gofnodi yr amser eu bod o dan contract ond nad oeddent yn gynhyrchiol".

Nid oes gennym god taflen amser sy'n bodloni'r disgrifiad hwn yn llawn, ond mae'n ymddangos eich bod yn cyfeirio at "NAT99 – COVID-19 Emergency – I'w ddefnyddio gan staff i gofnodi amser na chodir tâl amdano". Sylwer, gan fod llawer o swyddogaethau gwaith yn cael eu hariannu gan gyflenwad yn hytrach na ffioedd, nid yw amser na chodir tâl amdano o reidrwydd yn amser anghynhyrchiol.

Rwyf wedi ateb eich cwestiynau (atgynhyrchir isod mewn print trwm) ar y sail hon:

1. A allech roi cyfanswm yr amser a godir ar y cod hwnnw i mi, fesul mis, o fis Ebrill i fis Gorffennaf 2020 os gwelwch yn dda?

Gweler y tabl isod.

Amser a godir ar god NAT99 (mewn oriau)

2020	Archwilio Ariannol	Cyfanswm
Ebrill	1,300.8	2,595.1
Mai	717.8	1,868.1
Mehefin	433.8	1,383.6
Gorffennaf	283.5	883.4

2. Os yw'r wybodaeth ar gael ac nad yw'n waith gormodol i chi ei lunio, a allech ddarparu'r ffigurau ar gyfer eich sefydliad cyfan ac archwiliad ariannol fel grŵp os gwelwch yn dda? Dydw i ddim yn chwilio am wybodaeth sy'n datgelu unrhyw unigolion.

Gweler y tabl isod.

3. Pe bai eich sefydliad yn defnyddio unrhyw godau taflenni amser eraill i'ch staff gofnodi amser pan oeddent ar gael i weithio ond heb eu defnyddio, a allech ddarparu'r cyfansymiau a godwyd ar y codau hynny am yr un cyfnod os gwelwch yn dda?

Oni bai eich bod yn cyfeirio at godau fel y rhai ar gyfer absenoldeb neu TOIL, nid ydym yn cadw gwybodaeth sy'n bodloni'r disgrifiad hwn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am y ffordd yr ymdriniais â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,

Swyddog Gwybodaeth